Amgueddfa Cymru

Yn cyflwyno Her Fer Dinasyddiaeth Fyd-eang

MATER: CYNALIADWYEDD FFOCWS: Y DIWYDIANT GWLÂN

Beth yw'r Her Fer?

- Nod yr heriau yw profi eich Sgiliau Cyflogadwyedd Hanfodol

- Bydd yr her hon yn canolbwyntio ar
  - **Ddatrys Problemau a Myfyrdod Beirniadol**
  - **Creadigrwydd ac Arloesi**

LLUN: VIKTOR88/SHUTTERSTOCK.COM)

Beth yw’r Her Fer?

Mae Amgueddfa Cymru yn eich herio i ymchwilio i’r pwnc **Cynaliadwyedd** a’r diwydiant gwlân, ddoe a heddiw.

(LLUN: CASGLIAD Y WERIN)

(LLUN: AMGUEDDFA CYMRU)

Beth yw’r Her Fer?

Cewch eich herio wedyn i ddatblygu **Safbwynt Personol** ar y pwnc hwn a phecyn o adnoddau ar gyfer gweithgaredd i **Godi Ymwybyddiaeth** o’r pwnc hwn ymysg disgyblion iau yn eich ysgol.

LLUN: AMGUEDDFA CYMRU

Cynaliadwyedd a'r Diwydiant Gwlân

Beth yw Cynaliadwyedd?

- Mae ein goroesiad a'n lles yn dibynnu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar ein hamgylchedd naturiol

- Mae cynaliadwyedd yn creu ac yn cynnal yr amgylchedd naturiol er mwyn i ni allu diwallu ein gofynion cymdeithasol, economaidd a gofynion eraill nawr ac yn y dyfodol

- Mae cynaliadwyedd yn bwysig i sicrhau y bydd gennym ddŵr, deunyddiau a'r adnoddau sydd eu hangen arnom ac y caiff yr amgylchedd ei diogelu

Cynaliadwyedd a'r Diwydiant Gwlân

Country	Number of head of sheep
China	185,000,000
Australia	75,547,846
India	75,500,000
Sudan	52,500,000
Iran	50,220,000
Nigeria	39,000,000
New Zealand	30,786,761
United Kingdom	32,856,000
Pakistan	28,800,000
Turkey	27,425,233
Total	**1,172,833,190**

O flwyddlyfr ystadegol Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig 2013

Mae hanes hir i ffermio defaid a'r diwydiant gwlân ac mae'n parhau i fod yn bwysig yn fyd-eang.

Cynaliadwyedd a'r Diwydiant Gwlân

Mae gan Gymru hanes balch o ffermio defaid a diwydiant gwlân.

- Datblygodd y diwydiant gwlân yn wreiddiol fel diwydiant bach yn y cartref

- Yn sgil cyflwyno peiriannau (megis y peiriant nyddu) ar ôl 1790, lleolwyd y diwydiant fwyfwy mewn melinau gwlân mawr

(LLUNIAU: CASGLIAD Y WERIN)

Cynaliadwyedd a'r Diwydiant Gwlân

Mae gwlân wedi bod yn bwysig yn hanes Cymru

- Defnyddiwyd crysau gwlanen gan lowyr Cymru yn y 19eg ganrif
- Roedd crysau gwlanen yn amsugno chwys tra bod y glowyr yn gweithio
- Mae gwlân yn ddeunydd gwrthdan naturiol oherwydd ei fod yn cynnwys llawer o nitrogen a dŵr ac nid yw'n cynnau'n hawdd – sy'n bwysig o dan ddaear

(LLUN: AMGUEDDFA CYMRU)

Cynaliadwyedd a’r Diwydiant Gwlân

Mae gwlân wedi bod yn bwysig yn hanes Cymru.

- Defnyddiwyd brethyn cartref neu *Frethyn Llwyd* i ddiwallu’r galw am lifrai milwrol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Bu hyn o gymorth i atgyfnerthu hunaniaeth genedlaethol y Corfflu Cymreig

- Ymatebodd cynhyrchwyr gwlân Cymru i’r her. Erbyn 1915 roedd Melin Cambria yn Dre-fach Felindre (Amgueddfa Wlân Cymru erbyn hyn) yn honni y gallai gynhyrchu 3,500 llath o frethyn yr wythnos, digon ar gyfer 1,200 o lifrai


Telegrams: Lewis, Cambrian, Vallendee.

From DAVID LEWIS,
Cambrian Mills,
TREFACH,
Henllan, R.S.O.
Card.

Sir,
If there is any likelihood of any more "Brethyn Llwyd" being wanted I can now deliver 3000 yards weekly, and that a reliable cloth.
Yours truly
D. Lewis.

LLUN: LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

Cynaliadwyedd a'r Diwydiant Gwlân

Mae gwlân yn parhau i fod yn bwysig iawn i economi Cymru.

Lansiwyd yr **Ymgyrch Wlân** ym mis Ionawr 2010 gan Dywysog Cymru fel menter i ehangu marchnad wlân Prydain a'r Gymanwlad ac i hyrwyddo ymwybyddiaeth o wlân fel cynnyrch cynaliadwy a chanddo fanteision amgylcheddol sylweddol.

LLUN: GETTY IMAGES

Cynaliadwyedd a'r Diwydiant Gwlân

Mae'r rhai sy'n hyrwyddo gwlân fel cynnyrch cynaliadwy yn dadlau:

- Bod defnyddio cynnyrch gwlân yn cefnogi ffermwyr y byd
- Bod y rhan fwyaf o wlân yn cael ei gynhyrchu'n organig gyda phorfeydd sy'n rhydd o blaleiddiaid a defnydd isel o gemegau niweidiol
- Bod gwlân yn anhylosg ac nad yw'n mynd yn wenfflam ond yn hytrach yn mudlosgi
- Bod gwlân merino yn eich cadw'n gynnes pan fyddwch yn oer, ac yn eich cadw'n oer pan fyddwch yn boeth
- Bod gwlân merino'n para'n hir ac y gellir ei blygu 20,000 o weithiau cyn iddo dorri

(LLUN: AMGUEDDFA CYMRU)

Cynaliadwyedd a'r Diwydiant Gwlân

Mae'r rhai sy'n herio gwlân fel cynnyrch cynaliadwy yn dadlau:

- Bod angen llawer o dir a bwyd i fagu a bridio defaid
- Bod defnydd mawr o ddŵr yn gysylltiedig â defaid, a'r diwydiant gwlân yn gyffredinol
- Gall y defnydd o gemegau wrth gynhyrchu gwlân, edafedd a ffabrigau fod yn beryglus i'r amgylchedd

(LLUN: AMGUEDDFA CYMRU)

Cynaliadwyedd a’r Diwydiant Gwlân

- Gallwch ddysgu mwy drwy astudio’r mater yng Nghymru, cyn edrych ar wledydd eraill

- Bydd ymweld ag Amgueddfa Wlân Cymru yn Dre-fach Felindre yn eich galluogi i ddarganfod mwy ynglŷn â chynaliadwyedd yn y diwydiant gwlân

(LLUN: AMGUEDDFA CYMRU)

Beth sy'n rhaid ichi ei wneud ar gyfer yr Her Fer?

1. Gwneud gwaith ymchwil ar agwedd ar y pwnc Cynaliadwyedd a chyflwyno **Safbwynt Personol** ar y mater byd-eang hwn

2. Datblygu **Gweithgaredd Codi Ymwybyddiaeth** i'w ddefnyddio gyda disgyblion iau. Cynhyrchu **Pecyn Codi Ymwybyddiaeth** sy'n cyfleu eich syniadau

3. Cwblhau **Myfyrdod Personol**

TASG 1 Eich Safbwynt Personol

- Chwiliwch am wybodaeth am y pwnc o amrywiaeth o ffynonellau

- Chwiliwch am wybodaeth am yr agweddau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol (PESTLE)

- Nodwch eich barn bersonol am dlodi a llafur plant, gan wneud sylwadau am ddibynadwyedd y ffynonellau yr ydych yn cyfeirio atynt

ZUDY/SHUTTERSTOCK.COM)

Gwnewch Sylwadau ar Ddibynadwyedd eich Ffynonellau

Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynhonnell	Pa wybodaeth y gallwch ei chael o'r ffynhonnell hon? A yw'r wybodaeth yn fanwl neu wedi'i chyfyngu mewn unrhyw ffordd?
Pa resymau sydd dros gredu'r ffynhonnell?	Beth sy'n gwneud y ffynhonnell hon yn gredadwy ac yn ddibynadwy? Er enghraifft, a yw'n ddogfen swyddogol gan y llywodraeth, a yw'n dystiolaeth uniongyrchol gan lygad-dyst, neu a yw'n cyd-fynd â ffynonellau dibynadwy eraill?
A oes unrhyw resymau dros amau'r ffynhonnell?	A allai'r ffynhonnell neu rannau ohoni fod yn annibynadwy h.y. a allai fod yn anghywir, yn gelwydd, yn rhagfarnllyd, neu wedi'i gorliwio?

Gwnewch sylw ar yr agweddau Gwleidyddol, Economaidd, Cymdeithasol, Technolegol, Cyfreithiol ac Amgylcheddol

GWLEIDYDDOL	Barn a gweithredoedd llywodraethau a gwleidyddion
ECONOMAIDD	Agweddau a gweithredoedd rhieni a chyflogwyr
CYMDEITHASOL	Credoau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol mewn rhai cymunedau
TECHNOLEGOL	Y defnydd o lafur plant gyda thechnoleg, peiriannau neu gyfarpar penodol
CYFREITHIOL	Cyfreithiau sy'n ymwneud â llafur plant a pha mor effeithiol ydynt
AMGYLCHEDDOL	Effaith y diwydiant gwlân ar yr amgylchedd

TASG 2 Codi Ymwybyddiaeth

- Lluniwch becyn o adnoddau ar gyfer gweithgaredd i **Godi Ymwybyddiaeth** o agwedd ar **Gynaliadwyedd** a'r diwydiant gwlân ymysg dysgwyr iau yn eich ysgol

- Byddwch yn greadigol ac yn arloesol. Gallech ystyried cyflwyniadau, taflenni, ymgyrchoedd, gwefannau, blogiau, barddoniaeth, caneuon, posteri neu, yn well fyth, cyflwynwch eich syniadau gwreiddiol eich hun

(IMAGE SERGEY NIVENS/SHUTTERSTOCK.COM)

TASG 3 Eich Myfyrdod Personol

- Cofnodwch ac adolygwch eich **rôl bersonol** a'ch cyfraniad
- Myfyriwch ar eich **effeithiolrwydd personol**, gan gynnwys eich rôl chi ac fel aelod o dîm
- Os ydych wedi gweithio fel tîm, cofnodwch ac adolygwch sut y gwnaethoch ddatblygu a defnyddio eich **sgiliau personol a'ch sgiliau o ran gweithio mewn tîm**
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys **Creadigrwydd ac Arloesedd,** a **Myfyrdod Beirniadol a Datrys Problemau**



VLADYSLAV STAROZHYLOV/SHUTTERSTOCK.COM)

Sut y byddwch yn cael eich barnu?

- Pa mor dda rydych yn gweithio fel unigolyn neu fel rhan o dîm
- Eich Myfyrdod Beirniadol a'ch gallu i Ddatrys Problemau, a'ch Creadigrwydd ac Arloesedd
- Ansawdd eich **Safbwynt Personol** a'ch **Gweithgaredd a Phecyn Codi Ymwybyddiaeth**

I’ch helpu i ateb y briff, gallwch:

- Ymweld ag Amgueddfa Wlân Cymru
- Paratoi ar gyfer yr Her Fer drwy ddefnyddio Pecyn Ffynonellau a Gweithgareddau Cynaliadwyedd a’r Diwydiant Gwlân Amgueddfa Cymru